



Cyfarfod

PWYLLGOR IAITH

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 9FED GORFFENNAF, 2019

Lleoliad

Siambr Hywel Dda, Council Offices, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Rhonwen Jones

01286 679780

RhonwenJones@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 1 Gorffennaf 2019)

PWYLLGOR IAITH

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Aled Ll. Evans
Elin Walker Jones
Elfed Williams

Alan Jones Evans
Judith Mary Humphreys
Olaf Cai Larsen
Charles Wyn Jones

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Kevin Morris Jones
Eirwyn Williams

Eric M. Jones
John Pughe Roberts

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

Alwyn Gruffydd

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelod arall a wahoddir

Y Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol– Y Gymraeg

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019-20

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019-20.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION

5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 1af o Fai 2019 yn gywir. (atodir)

7. YMGYNGHORIAD CSGA LLYWODRAETH CYMRU

10 - 12

Cyflwyniad gan Debbie A W Jones (Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol Addysg).

Adroddiad ar ran y Cyngorydd Cemlyn Rees Williams (Aelod Cabinet)

Ymgynghoriad – Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a Chanllawiau – Drafft.

Pwrpas – i rannu gwybodaeth ac ystyried sylwadau'r aelodau fel rhan o'r broses o lunio ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad.

*10:10 – 10:50

(amcangyfrif amseru)

8. ADRODDIAD AELOD CABINET

13 - 14

Cyflwyniad gan y Cyngorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet).

Rhoi diweddariad ar y prif ddatblygiadau ym maes y Gymraeg ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

*10:50 – 11:30

(amcangyfrif amseru)

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR WEITHREDIAD SAFONAU IAITH 2018-19 15 - 31

Cyflwyniad gan Gwenllian Mair Williams (Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd).

Cyflwyno'r adroddiad blynyddol i sylw'r aelodau a thynnu sylw at faterion sydd yn codi er mwyn i'r aelodau gael trafodaeth bellach a chynnig argymhellion ar gyfer unrhyw gamau datblygol.

*11:30 – 12:10

(amcangyfrif amseru)

10. ADRODDIAD CANMOLIAETH A CHWYNION MAES Y GYMRAEG 32 - 34

Adroddiad gan Gwenllian Mair Williams (Swyddog Datblygu Iaith).

Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am gwynion ac engreiffiau o lwyddiant wrth hybu defnydd o'r Gymraeg yng ngwasanaethau'r Cyngor.

*12:10 – 12:50

(amcangyfrif amseru)

PWYLLGOR IAITH DYDD MERCHER 1 MAI 2019

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, (Cadeirydd)

Y CYNGHORWYR: Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Ll. Evans, Judith Mary Humphreys, Charles Wyn Jones, Elwyn Jones, Eric M Jones, Kevin Morris Jones, Olaf Cai Larsen, John Pughe Roberts, Eirwyn Williams, Elfed Williams,

SWYDDOGION: Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith), Gwenllïan Mair Williams (Swyddog Datblygu Iaith Gweithle), Rhonwen Jones (Swyddog Cefnogi Aelodau)

ERAILL A WAHODDWDYD: Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Is Gadeirydd y Cyngor)

HEFYD YN BRESENNOL:

Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen; Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet – Iaith)

Ar gyfer eitem 7; Bet Huws (Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd (Meirionnydd), Ifan Llewelyn Jones (Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd).

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd yr Aelod Cabinet a swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Elin Walker Jones

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion bryd.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 17eg Ionawr, 2019 fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD YR AELOD CABINET

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet dros Iaith.

Esboniwyd y rhoddir dwy wobwr flynyddol yn Seremoni gwobrwyo'r Cyngor ar ei Orau, fel a ganlyn:

- I gydnabod unigolyn o fewn y Cyngor sydd yn dysgu'r Gymraeg, ac yn ail,
- Unigolion neu dimau sydd yn gwneud ymdrech arbennig, neu yn mynd y tu hwnt

i'w swyddi arferol, i hybu'r Gymraeg i sicrhau bod posib i drigolion a defnyddwyr gwasanaethau ddefnyddio'r Gymraeg yn ddi-rwystr.

Dyfarnwyd y gwobrau eleni i Nancy Wilkinson (Swyddog Amgylchedd yn Ymgynghoriaeth Gwynedd) a Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant (am eu gwaith i sicrhau adnoddau Cymraeg ar gyfer hyfforddiant 'The Institution of Occupational Safety and Health' (IOSH)).

Cyflwynwyd dau fideo o'r seremoni wobrwyo ar ddiwedd y cyfarfod yn dangos yr enillwyr.

Tynnwyd sylw gan aelod at eitem 5.4 (Datblygiadau Eraill), Canllaw Cynllunio Atodol. Awgrymodd yr Aelod Cabinet iddi gyfarfod gyda'r Aelod i drafod ymhellach.

Penderfynwyd:

Derbyn yr adroddiad.

6. ADRODDIAD CANMOLIAETH A CHWYNION MAES Y GYMRAEG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Datblygu Iaith a nodwyd ei fod yn edrych ar gwynion a chanmoliaeth law yn llaw, er mwyn gallu adnabod tueddiadau a rhoi darlun llawn i'r aelodau o'r hyn sydd yn digwydd o fewn y Cyngor o safbwynt cydymffurfio gyda'r Safonau a'r Polisi Iaith.

Canmoliaeth

Esboniwyd fod yr adroddiad yn dangos dau achos penodol sydd wedi dod i sylw dros y misoedd diwethaf lle mae swyddogion y Cyngor wedi mynd y tu hwnt i'r gofyn i hyrwyddo'r Gymraeg ac i sicrhau bod trigolion yn cael gwasanaeth cyfrwng Cymraeg o safon:

1. **Hyfforddiant diogelwch (IOSH):** Cafodd y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant eu cydnabod yng ngwobrau'r Cyngor ar ei Orau yn ddiweddar am eu gwaith i sicrhau bod modd cael hyfforddiant IOSH yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Ers cryn amser, roedd staff y Cyngor wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddi cyfrwng Cymraeg yn y maes hwn, ond yn gorfod defnyddio deunyddiau Saesneg yn unig gan nad oedd y corff siartredig yn darparu deunyddiau dwyieithog. Roedd y mater wedi ei gyfeirio at y Comisiynydd er mwyn cael eu cefnogaeth nhw i ddwyn pwysau ar y darparwyr, ond yn y pen draw, ymdrechion swyddogion y Cyngor, dynnodd sylw at ofynion y safonau a galwadau gan staff am ddeunyddiau Cymraeg,

2. **Ffurflen ar-lein newydd [direct.gov](https://www.direct.gov.uk) ar gyfer Bathodyn Glas**

Nodwyd bod Rheolwr Siopau Gwynedd a Galw Gwynedd a'i swyddogion yn gweithio'n galed ar hyn o bryd i sicrhau bod y ffurflen ar-lein newydd ar gyfer ceisiadau Bathodyn Glas yn cwrdd â gofynion y Safonau a Pholisi'r Cyngor. Roedd y swyddogion wedi sylwi wrth brofi'r system (cyn mynd yn fyw) bod nifer o wallau a chamgymeriadau gyda'r fersiwn Gymraeg, ac mae'r Cyngor wedi gwrthod trosglwyddo i'r system ar-lein newydd heb i'r newidiadau gael eu gwneud i gyrraedd y safon ddisgwyliedig. Maent wedi bod yn cydweithio gyda'r uned gyfieithu a thîm y we i wirio'r system, ac wedi codi'r mater efo'r darparwr gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae trafodaethau yn parhau ar hyn o bryd a'r system yn dal heb fynd yn fyw.

Cwynion

Ers dechrau 2019, derbyniwyd gohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg am dair cwyn yn ymwneud efo'r Safonau Iaith.

Penderfynodd y Comisiynydd beidio ag ymchwilio ymhellach i'r cwynion ar sail yr esboniadau isod:

1. E-bost safonol Saesneg yn unig wedi ei anfon mewn ymateb i e-bost Cymraeg anfonwyd at GwE. Penderfynwyd peidio ag ymchwilio wedi i'r Comisiynydd dderbyn gohebiaeth gan uned Gyfreithiol y Cyngor oedd yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd Safonau'r Cyngor yn berthnasol i GwE oherwydd eu statws fel cydbwyllgor.
2. Derbynneb uniaith Saesneg wedi ei hanfon gan Bartneriaeth Prosesau Cosb Cymru. Esboniwyd bod hyn wedi digwydd o ganlyniad i nam technegol ar ôl i'r gweinyddwyr wneud diweddariadau i'r system dalu. Roedd y mater eisoes wedi dod i sylw'r Cyngor ac wedi ei ddatrys erbyn derbyn y gŵyn gan y Comisiynydd, a chytunodd y Comisiynydd bod y Cyngor eisoes wedi delio gyda'r mater yn briodol.
3. Gwasanaeth cynnal asesiadau a phrosesu ceisiadau Bathodyn Glas. Cadarnhaodd y Cyngor mai gwasanaeth dan reolaeth y Llywodraeth yw hwn, a bod y Cyngor eisoes wedi derbyn sawl cwyn am y gwasanaeth ac wedi cyfeirio pryderon am safon y gwasanaeth cyfrwng Cymraeg at y Llywodraeth. Wedi'r ymateb, cytunodd y Comisiynydd nad oedd cyfrifoldeb ar y Cyngor am y mater, ac maent wedi cyfeirio'r gŵyn a phryderon Cyngor Gwynedd ymlaen at yr adran berthnasol yn y Llywodraeth.

PENDERFYNWYD:

Derbyn yr adroddiad.

7. HUNANIAITH - MENTER IAITH GWYNEDD

Mewn ymateb i gais y Cadeirydd cyflwynwyd diweddariad ar waith Hunaniaith, gan amlinellu llwyddiannau, gwersi a ddysgwyd, a chymryd y cyfle i godi ymwybyddiaeth yr Aelodau o'r gwaith.

Trosolwg o waith 2018-19

Adroddwyd fod 2018-19 wedi bod yn flwyddyn dda o ran parhau i ddatblygu rhai partneriaethau allweddol, megis gyda Chymraeg i Blant a Grŵp Llandrillo Menai, a'i bod yn ymddangos bod y buddsoddiad amser i gyd-gynllunio a chydweithio yn dechrau talu.

Yn ogystal, nodwyd bod y cydweithio ar draws y Mentrau Iaith yn gyffredinol wedi datblygu ymhellach, gyda Mentrau Iaith Cymru (y sefydliad ambarél sy'n cefnogi gwaith y mentrau ar draws Cymru) yn arwain at sawl prosiect cenedlaethol. Mae cyfleoedd hefyd ar gyfer mwy o gydweithio rhwng mentrau iaith rhanbarth y Gogledd yn y dyfodol.

Cafwyd dau gyflwyniad gan y Swyddogion Iaith:

Blynyddoedd Cynnar

Esboniwyd fod seminarau wedi eu cynnal er mwyn arfogi gweithlu'r blynyddoedd cynnar a darparwyr gweithgareddau gyda'r wybodaeth i fynd a'r neges am werth dwyieithrwydd

at deuluoedd. Nodwyd fod yr adborth o'r seminarau wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac er na lwyddwyd i ddenu rhai o'r busnesau a mudiadau sy'n darparu gweithgareddau teuluol oedd wedi eu targedu, teimlai'r Swyddog bod y digwyddiadau wedi bod yn llwyddiant, ac y bwriedir parhau i gydweithio gyda Chymraeg i Blant a Gwasanaeth Blynnyddoedd Cynnar y Cyngor ar ddiwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

Targedu Pobl Ifanc oedran 15+:

Cynhaliwyd cynhadledd i bobl ifanc i drafod gwerth y Gymraeg fel sgil ar gyfer byd gwaith, gan gyflwyno arfer da a modelau rôl o feysydd proffesiynol a galwedigaethol. Nod y gynadledd oedd annog pobl ifanc i feddwl am eu dewisiadau gyrfaoel gan roi sylw penodol i ystyried y Gymraeg yn eu dewisiadau.

Cynhaliwyd y gynhadledd ar y cyd gyda swyddogion Grŵp Llandrillo Menai, a chanolbwyntiwyd ar fyfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai gyda sectorau Adeiladwaith, Gwallt a Harddwch a Lletygarwch a Thwristiaeth. Cafwyd adborth da a chytunwyd bod cynnwys y sesiynau yn fuddiol a phriodol ond bod angen ambell fireiniad megis symleiddio geirfa, a chynnwys llai o gwestiynau agored, fel modd i hwyluso cyfranogiad a thrafodaethau.

Cynhaliwyd cyfarfod cloriannu ar ôl y digwyddiadau a chytundeb ymysg y swyddogion bod y gynhadledd wedi llwyddo o ran y trefniadau a chynnwys, er bod angen ambell fireiniad a man addasiadau os am gynnal digwyddiad tebyg yn y dyfodol. Un pryder a fynegwyd oedd y trafferthion a gafwyd wrth ennyn diddordeb ac ymrwymiad tiwtoriaid y grŵp.

Mynegodd yr Aelodau siom yn hyn, gan nodi awydd i gymryd camau pellach. Nododd Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd ei bod am ysgrifennu yn swyddogol at Grŵp Llandrillo Menai i rannu'r adborth ar werthusiad am y cynadleddau er mwyn rhannu'r pryderon. Cynigodd Aelod y pwyllgor y byddai yn fodlon ysgrifennu llythyr at Grŵp Llandrillo Menai, ar ran y pwyllgor.

Derbyniwyd y cynnig.

Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi cwestiynau cyffredinol am waith Hunaniaith, gofynnwyd yr Aelodau sut roedd Hunaniaith yn dewis yr ardaloedd i dargedu. Mewn ymateb, nodwyd bod yr ardaloedd oedd wedi derbyn sylw dros y tair blynedd ddiwethaf wedi eu dewis yn bennaf ar sail data'r cyfrifiad ac argymhellion gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd bod angen edrych ar ffynonellau data eraill, megis y Siarter Iaith, er mwyn gwneud penderfyniadau am le i dargedu yn y dyfodol.

Cymraeg Byd Busnes

Cyflwynwyd y wybodaeth gan Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd ar ran Paul Carrol Jones (Byd Busnes).

Un o'r prosiectau mae Menter Iaith Cymru (MIC) yn gyfrifol amdanynt ar lefel genedlaethol yw prosiect Cymraeg Byd Busnes.

Nod y prosiect yw:

- Cynnig cefnogaeth a chynghor i fusnesau ar eu defnydd o'r Gymraeg.
- Gwasanaeth rhad ac am ddim.
- Wedi ei deilwra yn bennaf at fusnesau bach a chanolig a busnesau micro.

Esboniwyd y gallai busnesau bach yng Nghymru ofyn am gymorth gyda chyfathrebu, archebu nwyddau, llunio gwefannau a chysylltu gyda'r cyfyngau cymdeithasol trwy

gyfrwng y Gymraeg. Esboniwyd hefyd fod cefnogaeth ar gael i hysbysebu a recriwtio staff ac y gellid cael darpariaeth cyfieithu am ddim.

PENDERFYNWYD:

Derbyn yr adroddiad.

8. CYFARFODYDD PWYLLGOR IAITH

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith, er mwyn ceisio barn Aelodau'r Pwyllgor ar amlder a nifer cyfarfodydd y Pwyllgor mewn blwyddyn. Nodwyd barn yr Aelodau fod angen cadw at y niferoedd presennol o gyfarfodydd, gan ddatgan pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg i bawb.

PENDERFYNWYD:

Parhau gyda'r drefn gyfredol o gynnal pedwar cyfarfod o'r pwyllgor mewn blwyddyn.

Dechreuodd y cyfarfod am 9.30yb.a daeth i ben am 11.40yb.

CADEIRYDD

Eitem 7

CYFARFOD	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD	9 Gorffennaf 2019
TEITL	Ymgynghoriad: <i>Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a Chanllawiau - Drafft</i>
PWRPAS	Rhannu gwybodaeth ac ystyried sylwadau'r aelodau fel rhan o'r broses o lunio ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad
AWDUR	Debbie Anne Williams Jones
AELOD CABINET	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams

1. CEFNDIR

- 1.1. Daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Mawrth 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i baratoi a chyflwyno **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** i Lywodraeth Cymru (CSGA). Daeth y cynlluniau cyntaf hyn yn weithredol ar 1 Ebrill 2014 am gyfnod o 3 blynedd hyd at fis Mawrth 2017. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu sut mae Awdurdodau Lleol yn bwriadu cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.
- 1.2 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau polisi allweddol ym maes Y Gymraeg mewn Addysg:

Cymraeg 2050,

Dyma strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, sydd yn nodi'r weledigaeth o greu miliwn o siaradwyr, ynghyd â chynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yw un o'r prif ddulliau ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg newydd. O ganlyniad, ystyrir Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn allweddol ar gyfer cefnogi gweledigaeth y Llywodraeth o greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl (Cynllun Gweithredu 2017-21)

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn nodi'r camau sydd i'w cymryd i weithredu diwygiadau pellgyrhaeddol i'r system addysg yng Nghymru. Y nod yw sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar gwricwlwm o'r radd flaenaf a'u bod yn mwynhau dysgu ac addysgu sy'n eu hysbrydoli i lwyddo mewn cymuned addysg gydweithredol ac arloesol a gaiff ei harwain yn effeithiol. Mae datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gwella addysgu a dysgu Cymraeg i bob dysgwr wrth wraidd y diwygiadau hyn, ac felly ystyrir bod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn allweddol i hynny.

Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017-21

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw galluogi pob dysgwr i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus yn ei fywyd bob dydd. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, bydd angen sawl cam gweithredu ar gyfer creu darpariaeth gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau i ddod. Ceir yma chwech o egwyddorion arweiniol fydd yn meithrin dealltwriaeth gyffredin o rôl addysgu a dysgu Cymraeg, a thrwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob ysgol yng Nghymru, ac felly ystyrir Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn gyfrwng i ategu a gwireddu'r weledigaeth yma.

2. DOGFEN YMGYNGHORI

- 2.1 Er mwyn cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'r Llywodraeth yn cydnabod fod angen gwneud rhai newidiadau i'r ffordd y cynllunnir addysg cyfrwng Cymraeg.
- 2.2 Sefydlwyd Bwrdd Cefnogi annibynnol gan Lywodraeth Cymru rhwng Mai 2018 a Mawrth 2019 i ystyried y newidiadau deddfwriaethol oedd eu hangen i gefnogi gweledigaeth *Cymraeg 2050*. Daeth y Bwrdd i'r casgliad nad oedd y strwythur presennol sy'n cynnal y gwaith cynllunio statudol ar gyfer cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg drwy'r CSGA yn cefnogi'r uchelgais hirdymor ar gyfer yr iaith Gymraeg bellach.
- 2.3 O ganlyniad, rhwng 30 Mai 2019 a 2 Medi 2019, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfnod ymgynghori ar *Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a Chanllawiau – Drafft*. Dyma linc i'r ddogfen ymgynghori: [Dogfen Ymgynghori](#)

3. Y NEWIDIADAU ARFAETHEDIG

- 3.1 Amlinellir nawr brif newidiadau a ystyrir fel rhan o'r ddogfen ymgynghori:
 - Ymestyn hyd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg o'i gylchred 3 blynedd presennol i 10 mlynedd;
 - Dileu'r ddyletswydd i gynllunio ar sail ganlyniadau mesur y galw ymysg rhieni
 - Gofyniad i awdurdodau lleol osod uchelgais i'w hunain dros 10 mlynedd a chynllunio eu darpariaeth addysg Gymraeg ar sail targed clir;
 - Disgwyliad i gyfrifo'r targed yn unol â'r fethodoleg a gyflwynir yn y canllaw statudol;
 - Newidiadau i gynnwys y CSGA (gan gynnwys gwell cysylltiad rhwng y weledigaeth a'r targed)
 - Symud i fonitro a gwerthuso cynnydd yn barhaus: adroddiadau cynnydd blynyddol cryno
 - Canllaw drafft gyda'r nod o gynnig cefnogaeth ac arweiniad ymarferol i awdurdod lleol baratoi cynllun.

3.2 Bwriedir manylu ymhellach ar y newidiadau hyn a'r ystyriaethau sydd yn berthnasol i Wunedd mewn cyflwyniad yng nghyfarfod y Pwyllgor Iaith ei hun.

4. **ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r aelodau:

- Gyflwyno unrhyw sylwadau i'w cynnwys fel rhan o ymateb ffurfiol Gwunedd i'r ymgynghoriad ar *Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a Chanllawiau - Drafft*

Eitem 8

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	9fed o Orffennaf 2019
TEITL:	Adroddiad yr Aelod Cabinet
AWDUR:	Cynghorydd Nia Jeffreys
PWRPAS YR ADRODDIAD	Rhoi diweddariad ar y prif ddatblygiadau ym maes y Gymraeg ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

1. Comisiynydd y Gymraeg

Cafwyd cyfarfod adeiladol a buddiol iawn gyda'r Comisiynydd newydd, Aled Roberts, ar yr 20fed o Fai, lle y trafodwyd nifer o faterion o ddiddordeb, o newidiadau i'r drefn gwynion i'r math o feysydd y mae gan y Comisiynydd ddiddordeb penodol ynddynt.

Adroddwyd bod y Comisiynydd yn cynnal trafodaethau gyda'r Llywodraeth er mwyn datblygu'r ddealltwriaeth a chael eglurder am bwy sydd yn gyfrifol ac yn gwneud be o safbwynt hybu a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae hyn wedi codi yn sgil nifer o newidiadau dros y blynnyddoedd diwethaf wrth i isadran y Gymraeg y Llywodraeth lansio nifer o brosiectau ac ymgyrchoedd eu hunain, ac wrth i swyddfa'r Comisiynydd allu gwneud llai o waith hybu.

Cafwyd trafodaeth arbennig o ddifyr am ddefnydd iaith a'r ffactorau hynny sydd yn atal pobl rhag defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'n amlwg bod hwn yn faes sydd o ddiddordeb i'r Comisiynydd newydd, ac yn faes y dylem fod yn ystyried gwneud mwy o waith ymchwil ynddo. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun dewisiadau iaith pobl wrth ddefnyddio technoleg.

Roedd un o swyddogion y Comisiynydd hefyd wedi mynychu un o gyfarfodydd diweddar yr Is-grŵp y Gymraeg y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, er mwyn trafod syniadau ar gyfer sut y gallai'r grŵp hwnnw ategu gwaith y Comisiynydd.

2. Prosiectau Cynllun y Cyngor

Busnesau yn Defnyddio'r Gymraeg

Fel rhan o gynllun Arfor, mae prosiect ar y cyd wedi ei gynnig rhwng y 4 sir (Gwynedd, Môn, Ceredigion, Caerfyrddin) fydd yn edrych ar lunio ymgyrch ar-lein i roi hwb i ddefnydd busnesau o'r Gymraeg.

Cymraeg yn y Gweithle

Hyd at ddiwedd mis Mehefin, roedd gwaith y dynodiadau iaith wedi cyrraedd 874 o unigolion mewn 34 o wasanaethau rheng flaen e.e. Cyswllt Cwsmer a Chofrestru, Ailgylchu, Morwrol a Pharciau Gwledig a Chyfiawnder Ieuencid.

Mae'r gwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod aelodau o staff y Cyngor yn gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog i bobl Gwynedd. Os oes bwlch rhwng gofynion iaith y swydd a gallu presennol yr unigolyn, byddwn hyfforddiant addas yn cael ei gynnig er mwyn cau'r bwlch hwnnw.

Rhan arall o'r gwaith ydi cefnogi siaradwyr mamiaith neu ddysgwyr rhugl i barhau i allu defnyddio'r iaith yn hyderus o ddydd i ddydd. I wneud hyn, mae swyddogion Dysgu a Datblygu Iaith yn gosod Tip Cymraeg y Mis ar y fewnrwyd staff er mwyn rhoi awgrymiadau syml i staff ar sut i wella neu gynnal safon eu Cymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o bethau, megis cyngor defnyddiol am ramadeg a sut i wneud y defnydd gorau o adnoddau digidol Cymraeg.

Mae'r Tip wedi cael ymateb da iawn, gyda sawl aelod o staff wedi eu canmol a dweud bod y Tip wedi'u help gyda'u gwaith bob dydd.

Mae ymateb cadarnhaol wedi dod o'r tu allan i'r Sefydliad hefyd gan fod y swyddogion yn cynnwys y tip fel baner ar waelod eu negeseuon e-bost, e.e. gan Mared Grug, Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn; a Hywel Hughes, Pennaeth Gwasanaethau Cymraeg a Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltiad Staff, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Bellach mae Nant Gwrtheyrn yn defnyddio baner e-bost Tip Cymraeg y Mis yn eu negeseuon e-byst eu hunain, sy'n cyrraedd dysgwyr a sefydliadau ar draws Cymru.

3. Datblygiadau eraill

Mae prosiect cyffrous wedi ei gychwyn yn ardal Bangor, drwy bartneriaeth rhwng Menter Iaith Bangor a Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin Cymru a Chanolfan Bedwyr Prifysgol Bangor.

Daeth y partneriaid at ei gilydd yn ddiweddar i lunio tendr llwyddiannus ar gyfer prosiect gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol i gynnal cynllun prosiect fydd yn targedu 30 o siaradwyr Cymraeg anfoddog yn ninas Bangor.

Y nod yw dod a detholiad o bobl, yn cynnwys rhieni plant oed ysgol, gwirfoddolwyr yng Nghastell Penrhyn a Phontio, a staff cyflogedig o gyrff trydydd sector, preifat a cyhoeddus ym Mangor, at ei gilydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau fydd yn eu helpu i adennill eu hyder i siarad y Gymraeg unwaith yn rhagor. Y gobaith ydi y bydd modd i'r partneriaid ddysgu rhywbeth o'r cynllun yma fydd yn helpu i dargedu siaradwyr anfoddog neu ddihyder mewn ardaloedd eraill.

Hoffwn longyfarch y partneriaid a dymuno pob lwc iddynt efo'r prosiect.

Eitem 9

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	9 GORFFENNAF 2019
TEITL:	Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd ar weithrediad y Safonau Iaith
AWDUR:	Gwenllian Mair Williams Swyddog Datblygu Iaith
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i sylw'r Aelodau a thynnu sylw at faterion sydd yn codi er mwyn i'r aelodau gael trafodaeth bellach a chynnig argymhellion ar gyfer unrhyw gamau datblygol.

1 CEFNDIR

1.1 Yn unol â gofynion y Safonau Iaith, a osodwyd ar y Cyngor dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gofyn i'r Cyngor "lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi sy'n delio â'r modd y bu [ichi] gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr [oeddech] o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy."

1.2 Mae'r Safonau penodol sydd yn ymwneud efo adrodd blynyddol (158, 164 ac 170) yn gofyn yn benodol i ni gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- *nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau*
- *nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);*
- *nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –*
 - i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol*
 - ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,*
 - iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu*
 - iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);*

1.3 Y tu hwnt i'r wybodaeth yma, mae rhyddid i'r Cyngor gynnwys unrhyw wybodaeth y teimlwn sydd yn ychwanegu at ddealltwriaeth o'r camau penodol a gymerir i weithredu'r Safonau.

- 1.4 Mae'r adroddiad a atodir felly yn Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn hyd at Fawrth 2019, ac mae'n cynnwys y wybodaeth benodol y gofynnir amdano yn Safonau 158, 164 ac 170 yn ogystal ag ychydig o wybodaeth ychwanegol.

2 MATERION YN CODI O'R ADRODDIAD

Gwybodaeth am sgiliau iaith staff:

- 2.1 Mae'r data sydd yn cael ei adrodd yn cynnwys gwybodaeth am staff o bob adran o'r Cyngor, ac eithrio staff addysgu yr adran Addysg. Nid yw ychwaith yn cynnwys staff sydd yn gweithio i GWE a'r Asiantaeth Cefnffyrdd (NMWTRA).
- 2.2 Cesglir y wybodaeth yn uniongyrchol gan Benaethiaid yr adrannau perthnasol, ac eithrio'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion, lle y ceir y wybodaeth drwy eu cofnodion blynyddol (yr STF).
- 2.3 Eleni, casglwyd gwybodaeth ar gyfer tua 800 o aelodau staff yn fwy nag y llynedd.
- 2.4 Drwy waith y dynodiadau iaith, mae gennym bellach wybodaeth fanylach am bron i 1,500 o staff y Cyngor ac mae'r gwaith o gynnis hyfforddiant i unigolion sydd ei angen yn digwydd yn barhaus.

Hyfforddiant:

- 2.5 Mae'r data yn dangos bod cynnydd bychan wedi bod yn nifer y cyrsiau sydd yn cael eu cyflwyno yn ddwyieithog neu yn Saesneg ers y flwyddyn flaenorol. Gallai hyn fod yn sesiwn Saesneg o gwrs cyfatebol yn Gymraeg neu yn gyrsiau arbenigol lle mae angen prynu gwasanaeth allanol.
- 2.6 Byddwn yn cynnal dadansoddiad manylach o'r ffigurau yma a'r rhesymau am y newid, er mwyn gweld a oes angen cymryd unrhyw gamau i newid y sefyllfa.

Swyddi:

- 2.7 Mae'r safon yn gofyn i ni nodi faint o swyddi sydd yn cael eu hysbysebu lle mae'r Gymraeg yn hanfodol. Gan fod rhyw lefel o allu ieithyddol yn ofynnol ar gyfer pob swydd o fewn y Cyngor, nodir yma bob swydd sydd wedi eu hysbysebu dros y cyfnod dan sylw.
- 2.8 Mae trefn newydd y dynodiadau iaith, sydd yn gofyn i reolwyr bennu'r gwahanol lefelau iaith priodol wrth hysbysebu a phenodi i swyddi newydd, yn golygu y dylem, yn y dyfodol, fod yn gallu casglu data manylach na'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd ar y gwahanol categorïau o swyddi.

3 ARGYMHELLION

3.1 Gofynnir i'r aelodau:

- dderbyn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol er gwybodaeth.
- cael trafodaeth am y materion a nodir uchod ac unrhyw faterion eraill sydd yn codi cwestiynau
- Cynnig argymhellion ar unrhyw gamau datblygol.

ADRODDIAD BLYNYDDOL AR WEITHREDIAD SAFONAU'R GYMRAEG 2018 - 19

CYNGOR GWYNEDD

1. Cefndir

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith gyfreithiol, sydd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safonau unigol yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu na ddylai'r Cyngor drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai'r Cyngor hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (sef ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd).

Mae'r Safonau Iaith wedi eu rhannu yn bum maes:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

Derbyniodd y Cyngor hwn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar 30 Medi 2015. Roedd yr hysbysiad hwn yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy, ac ar 30 Mawrth 2016 daeth 147 o safonau yn weithredol, gyda 4 o safonau hybu yn dod yn weithredol ar 30 Mawrth 2017.

Yn sgil ymrwymiad hanesyddol y Cyngor i'r iaith Gymraeg, roedd y Cyngor eisoes wedi bod yn cydymffurfio â nifer sylweddol o'r safonau a osodwyd arno trwy weithrediad ei Gynllun Iaith, ac yn wir, roedd y Cynllun hwn yn mynd ymhellach na safonau'r Gymraeg mewn sawl maes.

Ystyriwyd na ddylid gwanhau ymrwymiad presennol y Cyngor tuag at y Gymraeg trwy gyfyngu'r ymrwymiad i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn unig, ac o ganlyniad, datblygwyd Polisi Iaith o'r newydd.

Nod Polisi Iaith y Cyngor – sef ei brif gyfrwng o sicrhau cydymffurfiaeth efo'r Safonau Iaith – yw sicrhau fod posib i holl drigolion y sir ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Dilynir yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, ond gan weithio yn rhagweithiol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael blaenoriaeth bob amser.

2. Cydymffurfio efo'r Safonau

Mae Polisi Iaith a gweithdrefnau'r Cyngor yn sicrhau bod holl wasanaethau'r Cyngor yn cael eu cynnig yn ddwyieithog. Yn sgil blynyddoedd o osod gofynion iaith wrth recriwtio, ac o gynnig hyfforddiant i wella sgiliau a dysgu'r Gymraeg, rydym wedi sicrhau bod mwyafrif llethol staff y Cyngor yn gallu'r Gymraeg ac yn gallu gweithredu'r unol a'r polisi hwn, gan normaleiddio defnydd o'r Gymraeg a sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg ar gael yn ddi-ofyn.

Nodir yn yr adran hon unrhyw Safonau lle mae'r Cyngor wedi gorfod cymryd camau ychwanegol neu roi ystyriaeth arbennig – y tu hwnt i weithredu'r Polisi Iaith – yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cymerir camau er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau dros bobl Gwynedd o safbwynt cynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol, ac hefyd o safbwynt annog a hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r gwasanaethau hynny.

SAFONAU CYFLENWI GWASANAETH

Mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i gydymffurfio â 70 o safonau cyflenwi gwasanaeth, a 6 o safonau atodol cyflenwi gwasanaeth. Yn sgil ymrwymiad hanesyddol Cyngor Gwynedd i'r Gymraeg, roedd y Cyngor eisoes yn gweithredu'n unol neu thu hwnt i ofynion nifer o'r safonau hyn pan y gosodwyd hwy ar y Cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg.

SAFON	CYNNWYS Y SAFON	GWEITHRED
7+14+21+ 30+32	Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â gofyn i unigolyn a ydynt yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg neu ddatgan ein bod yn croesawu cyswllt yn Gymraeg	<p>Yn sgil Polisi Iaith ac ymrwymiad hanesyddol y Cyngor i'r Gymraeg, y mae'r defnydd o'r Gymraeg wedi ei normaleiddio ac mae ymwybyddiaeth uchel ymysg y cyhoedd y gallent gyrchu gwasanaethau a gohebu gyda'r Cyngor yn Gymraeg.</p> <p>Mae egwyddorion y Polisi iaith, ac egwyddorion gweithredu ehangach y Cyngor yn golygu bod disgwyl i staff weithredu yn unol ag egwyddor y cynnig rhagweithiol – hynny yw, bod y dewis iaith a'r gwasanaeth Cymraeg wastad ar gael fel dewis cyntaf, ac na ddylai unrhyw un orfod "gofyn" am y gwasanaeth hwnnw.</p> <p>Gan dderbyn bod camgymeriadau yn mynd i ddigwydd ar adegau, rydym yn ffyddiog bod gweithredu'n rhagweithiol yn hepgor yr angen i ofyn a datgan, ac hefyd bod dealltwriaeth dda ymysg trigolion bod y gwasanaethau oll ar gael yn ddwyieithog.</p>

		<p>Serch hynny, rydym yn cydnabod bod arferion pobl yn newid, a bwriedir blaenoriaethu gwaith ymchwil dros y flwyddyn nesaf fydd yn edrych ar agweddau defnyddwyr, a'u canfyddiadau am gyfrwng iaith gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod yr agwedd yma o'r polisi yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol.</p>
<p>52+55+56+</p> <p>57+58+</p> <p>59+60</p>	<p>Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â'r wefan, apiau, cyfryngau cymdeithasol, a pheiriannau hunan-wasanaeth</p>	<p>Mae rhai rhwystrau yn parhau efo apiau a gwefannau, ac yn enwedig felly wrth brynu systemau allanol. Rydym yn parhau i ddelio gyda'r achosion hyn yn unigol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael y gwasanaeth a'r dewis gorau.</p> <p>Mae angen gweithio yn barhaus i godi ymwybyddiaeth cwmnïau allanol o'r angen i ddatblygu apiau yn ddwyieithog o'r cychwyn, yn hytrach na gorfod eu haddasu i anghenion bellach ymlaen. Mae hefyd yn parhau yn her pan fydd angen i wefan neu wasanaethau'r Cyngor drosglwyddo i wefannau allanol, megis gwasanaethau talu ar-lein, i sicrhau bod popeth ar gael yn Gymraeg.</p> <p>Mae mwy o wasanaethau a ffurflenni yn cael eu cyflwyno ar-lein erbyn hyn, ac mae'r Cyngor ei hun wedi bod yn datblygu nifer o wasanaethau ar-lein yn ddiweddar, er mwyn galluogi'r cyhoedd i wneud ceisiadau a thaliadau drwy wefan y Cyngor. Mae'r rhain i gyd ar gael yn ddwyieithog.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu newid yng ngwasanaethau ar-lein Bathodyn Glas ac hefyd ceisiadau DBS. Mae'r Cyngor wedi ceisio dylanwadu ar y newidiadau er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn cyrraedd ein safonau, ond mae'r ddau fater hwn yn parhau ac wedi eu cyfeirio at y Comisiynydd Iaith am gefnogaeth i'w datrys.</p>
<p>ATODOL</p> <p>155+156+157+</p> <p>158+159+160</p>	<p>Safonau Cyflenwi Gwasanaeth sydd yn ymwneud â threfniadau cydymffurfio gyda'r</p>	<p>Dilynir y drefn gwynion gorfforaethol wrth ymdrin â chwynion iaith, ac mae'r drefn honno ar wefan y Cyngor.</p>

	Safonau Cyflenwi Gwasanaeth	Llunir a chyhoeddir adroddiad blynyddol gan y Cyngor yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg.
--	--------------------------------	---

SAFONAU LLUNIO POLISI

Mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i gydymffurfio â 10 o safonau llunio polisi, a 6 o safonau atodol llunio polisi. Eto, roedd y Cyngor eisoes yn gweithredu'n unol neu y tu hwnt i ofynion nifer o'r safonau hyn pan y'u gosodwyd ar y Cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg.

SAFON	CYNNWYS Y SAFON	GWEITHRED
88+89+90+94	Safonau Llunio Polisi yn ymwneud ag ystyried yr effaith ar y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg.	<p>Mae'r Uned Iaith yn chwarae mwy o rôl mewn asesiadau effaith, gan gynnig llais arbenigol ac annibynnol wrth asesu effaith newidiadau polisi neu ailstrwythuro gwasanaethau. Mae'r drefn o asesu effaith ar faterion cydraddoldeb yn cynnwys effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a bydd yr Uned yn cyfrannu a gwirio unrhyw asesiadau er mwyn sicrhau'r effaith lleiaf posib.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi adnabod nad yw'r drefn bresennol sy'n bodoli yn dod â'r canlyniadau a ddymunir o ran sicrhau bod y Cyngor yn manteisio ar bob cyfle i hybu defnydd o'r Gymraeg.</p> <p>Roedd Adroddiad Sicrwydd y Comisiynydd yn haf 2018 hefyd yn tynnu sylw at yr angen i edrych ar y maes hwn, ac felly mae'r Uned Iaith a'r Swyddog Cydraddoldeb wedi bod yn cydweithio i ystyried newidiadau i'r broses, er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cael y gorau allan o'r ymarfer wrth i adrannau asesu effaith eu penderfyniadau polisi ar wahanol nodweddion cydraddoldeb ac iaith.</p> <p>Mae gwaith y Cyngor ar ddatblygu'r canllawiau asesu effaith ar gyfer ceisiadau cynllunio hefyd wedi helpu datblygu ein dealltwriaeth yn y maes hwn. O fis Mai 2019 ymlaen, bydd yr Uned Iaith yn cymryd rhan weithredol wrth wirio unrhyw asesiadau iaith (cryno neu lawn) a gaiff eu cyflwyno fel rhan o geisiadau cynllunio, ac yn argymhell camau i'w cymryd os gwelwn bod effaith posib i ffyniant y Gymraeg yn ein cymunedau o ganlyniad i ddatblygiad arfaethedig.</p>

SAFONAU GWEITHREDU

SAFON	CYNNWYS Y SAFON	GWEITHREDU
127+136+136A+	Safonau Gweithredu yn ymwneud ag asesu sgiliau iaith ein cyflogeion	<p>Mae'r Cyngor yn casglu gwybodaeth flynyddol gan bob adran i bennu nifer y staff sydd yn siaradwyr Cymraeg.</p> <p>Mae'r angen i siarad Cymraeg wedi cael ei osod fel sgil hanfodol ar gyfer pob swydd o fewn y Cyngor, sydd yn golygu bod angen rhyw lefel o allu a dealltwriaeth ar gyfer pob swydd.</p> <p>Yn ystod 2018-19 sefydlwyd trefn newydd ar gyfer pennu gofynion ieithyddol wrth benodi i swyddi newydd. Mae sgiliau yn y Gymraeg yn parhau i fod yn ofyniad hanfodol ar gyfer pob swydd, ond nawr, wrth lunio'r swydd ddisgrifiad a manylion person, gofynnir i reolwyr ystyried pa lefel o sgiliau ieithyddol fydd ei angen ar gyfer y swydd dan sylw, a gwahaniaethu rhwng sgiliau ysgrifenedig, llafar, a darllen a deall, ar sail fframwaith sydd wedi ei datblygu gan y Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn hefyd, cwblhawyd rhan gyntaf y gwaith o fapio sgiliau ieithyddol y swyddi sydd eisoes yn bodoli yn y Cyngor. Mae pob adran o fewn y Cyngor bellach wedi edrych ar fanylion person pob swydd o fewn eu gwasanaethau, a gwirio a yw'r lefelau iaith wedi eu gosod yn briodol ar gyfer gofynion y swydd.</p> <p>Ail gam y gwaith hwn, sydd eisoes ar waith, yw adnabod a yw'r swyddogion sydd yn y swyddi hynny ar hyn o bryd yn cyrraedd y gofynion iaith neu beidio.</p> <p>Mae hwn yn waith sydd yn cymryd amser, gan ei fod yn golygu cyswllt dwys gyda rheolwyr ac unedau, cynnal hunan-asesiadau, ac ar gynnig cefnogaeth a hyfforddiant ar unwaith i unigolion os gwelir eu bod yn is na'r sgiliau dymunol ar hyn o bryd.</p> <p>Mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar wasanaethau rheng flaen i gychwyn, a hyd at</p>

		<p>ddiwedd Mawrth 2019, roedd y prosiect wedi'i gwblhau mewn 9 gwasanaeth rheng flaen ac yn parhau mewn 7 arall. Bydd yr unigolion nad ydynt yn cyrraedd gofynion y swydd yn derbyn asesiad arall i gadarnhau'r hunanasesiad ac yna'n cael cynnig hyfforddiant er mwyn cau'r bwlch. Mae'r holiadur hwn yn caniatáu i swyddogion ymateb i anghenion penodol yr unigolyn yn dilyn dadansoddiad manwl o'r atebion.</p> <p>Budd ychwanegol annisgwyl o'r gwaith hwn yw ein bod nid yn unig wedi gweld bod gan nifer fawr o staff sgiliau ieithyddol uwch na'r hyn sydd yn ddisgwyledig ar gyfer eu swyddi penodol, ond mae hefyd wedi arwain at gynnydd yn nifer yr aelodau staff sydd yn gofyn am hyfforddiant, megis gloywi iaith, er mwyn gwella eu sgiliau ymhellach.</p>
<p>128+129+130 +131+132+133+</p>	<p>Safonau Gweithredu yn ymwneud ag hyfforddiant cyffredinol, hyfforddiant iaith ac ymwybyddiaeth</p>	<p>Mae nifer helaethaf hyfforddiant y Cyngor yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, gyda chyrсияu Saesneg ar gael drwy gais yn unig.</p> <p>·</p> <p>Mae cyrsiau arbenigol mewn meysydd penodol, lle bydd angen prynu gwasanaeth allanol, yn dal i fod yn rhwystr, fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion cyson y Cyngor i ddylanwadu ar ddarparwyr, a bydd nifer o'r cyrsiau hyn yn cael eu darparu yn ddwyieithog</p> <p>Ran amlaf, llwyddir i gael deunyddiau Cymraeg, ond ceir problem wrth geisio cael hyfforddwyr sydd yn gallu arwain y sesiynau yn Gymraeg.</p> <p>Lle bo'n bosib, bydd y Cyngor yn ymateb i'r her drwy gynnal sesiynau hyfforddi'r hyfforddwr, ac yn datblygu sgiliau y tîm Dysgu a Datblygu'r Sefydliad, er mwyn sicrhau eu bod hwy'n gallu darparu'r hyfforddiant eu hunain.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er enghraifft, bu swyddogion Cyngor Gwynedd yn allweddol yn yr ymdrechion i sicrhau hyfforddiant iechyd a diogelwch (IOSH) yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg. Hyd y pwynt yma, roedd swyddogion y Cyngor wedi bod yn gorfod cynnal y cwrs eu hunain, ond yn methu a chael y</p>

		deunyddiau achrededig yn Gymraeg. Bellach gellir dilyn y cwrs yn ei gyfanrwydd yn y Gymraeg.
--	--	--

SAFONAU HYBU

Yn ystod 2018-19 cafodd cynllun strategol newydd y Cyngor ar gyfer hybu'r Gymraeg ei gyhoeddi yn unol a'r gofyniad yn y Safonau. Mae **Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023** yn ymgais i adnabod y prif heriau a chyfleoedd sydd yn wynebu'r Gymraeg yng Ngwynedd. Y nod cyffredinol yw cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, drwy wasanaethau'r Cyngor ei hun ac yn gymunedol. Roedd Pwyllgor Iaith y Cyngor yn rhan allweddol yn llunio'r cynllun hwn ac maent yn cadw trosolwg dros ei weithrediad drwy dderbyn adroddiadau rheolaidd am wahanol brosiectau a ffrydiau gwaith sydd yn cyfrannu tuag at y weledigaeth.

Gellir gweld copi o'r Cynllun Hybu yma [linc]

3. Adrodd ar niferoedd staff sydd yn gallu'r Gymraeg

ADRODD YN UNOL Â GOFYNIION SAFON 170 - (a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg

Mae'r data canlynol yn adrodd ar nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg, gan roi dadansoddiad o lefel y sgiliau fesul gwasanaeth:

Nid yw'r data hwn yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer GWE ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru (NMWTRA) gan eu bod yn adrannau rhanbarthol sydd yn cael eu gweinyddu gan Gyngor Gwynedd.

GWASANAETH	CYFANSWM NIFER STAFF	NIFER SIARADWYR CYMRAEG RHUGL	NIFER DYSGWYR / GALLU DEALL A SIARAD RHYWFAINT	NIFER SYDD DDIM YN SIARAD NA DEALL UNRHYW GYMRAEG
Addysg – Staff canolog	185	185		
Staff Dysgu¹	775	716	-	59
Staff Ategol				
Amgylchedd	162	159	3	
Cyllid	206	204	2	
Cefnogaeth Gorfforaethol	184	184		
Economi a Chymuned	406	395	11	3
Oedolion Iechyd a Llesiant Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,290	1,163	127 ²	
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	546	530	16	
Ymgynghoriaeth	118	105	12	1
Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol	33	33		
	CYFANSWM	3,905	3,674	234
		94%		6%

¹ Er nad ydym wedi bod yn casglu data manwl ar allu ieithyddol staff addysg ac ysgolion yn y gorffennol, mae darn o waith wedi ei wneud yn ystod 2018, dan arweiniad GWE, i asesu lefelau sgiliau y gweithlu addysg cyfan. Mae'r arolwg hwnnw yn dangos bod **87.1% o'r 1,345** o staff a ymatebodd i'r cais gwybodaeth yn gallu cyfathrebu yn rhugl a hyderus yn Gymraeg a dim ond **0.7%** heb unrhyw sgiliau iaith Gymraeg o gwbl.

² Mae'r data a ddangosir ar gyfer y ddwy adran gwasanaethau cymdeithasol yn ddata a gyflwynir gan y gwasanaethau Oedolion a Phlant ar gyfer eu hadroddiad data blynyddol (yr STF). Nid oedd y data hwn wedi cael ei wirio yn llawn, ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn ar y 28 o Fehefin 2019, ac felly bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau wedi hynny os bydd angen.

4. Adrodd ar hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i staff a datblygu sgiliau iaith

ADRODD YN UNOL Â GOFYNION SAFON 170 –

(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennyh yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

Caiff holl raglen hyfforddiant canolog y Cyngor ei ddarparu yn Gymraeg, gyda chysiau ar gael yn Saesneg ar gais. Os bydd aelodau o staff di-Gymraeg neu ddysgwyr mewn hyfforddiant anwytho, bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnig yn ddwyieithog. Gellir gwneud hyn mewn sawl ffordd, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau, a nifer y rhai di-Gymraeg yn y sesiwn – drwy ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd, defnyddio sibrwd, neu yr arweinydd/hyfforddwr yn cyflwyno yn y ddwy iaith bob yn ail.

Yr unig achlysuron lle bydd hyfforddiant uniaith Saesneg yn cael ei gynnig yw pan fydd angen hyfforddiant mewn meysydd arbenigol, a phrynu gwasanaethau hyfforddwyr arbenigol i mewn. Hyd yn oed bryd hynny, gwneir pob ymdrech wrth gomisiynu gwasanaethau i gael deunyddiau dwyieithog a chymerir pob cyfle i geisio dylanwadu ar ddarparwyr cenedlaethol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er enghraifft, llwyddwyd i gymryd cam mawr ymlaen ym maes lechyd a Diogelwch drwy sicrhau y bydd yr hyfforddiant IOSH rhyngwladol o hyn ymlaen ar gael yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer staff.

Roedd y Cyngor wedi tynnu sylw'r Comisiynydd at y rhwystrau gyda'r math yma o hyfforddiant wedi i ni dderbyn cwynion gan aelodau o staff, ac i ofyn am eu cefnogaeth i ddylanwadu ar y darparwyr, ond mae'n deg dweud bod dyfalbarhad staff y Cyngor ar y mater wedi gwneud gwahaniaeth enfawr yn y pen draw i wyrddroi agweddau a phenderfyniad o fewn y sefydliad.

Nifer “**digwyddiadau**” hyfforddi mewnol yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2018 i 30 Mawrth 2019: **798**

Mae hyn yn gyfuniad o deitlau ‘corfforaethol’ ac ‘arbenigol’ ac yn cynnwys pob math o ddysgu – wyneb yn wyneb, e-fodiwlau a webinarau.

Nifer Teitlau unigol yn ystod yr un cyfnod oedd **252**

DIGWYDDIADAU HYFFORDDI	NIFER	MYNYCHWYR
Cymraeg	381	1483
Saesneg	218	1067
Dwyieithog	208	1140

5. Adroddiad Hyfforddiant Iaith Gymraeg 2017- 2018

O safbwynt y ddarpariaeth a gynigiwyd i ddysgwyr, defnyddiwyd y trefniadau isod yn ôl y galw:

- Cyrsiau cymunedol dros gyfnod hir (dysgwyr yn mynychu unwaith neu ddwywaith yr wythnos yn y gymuned)
- Sesiynau Gloywi Iaith rheolaidd a gynhelir gan y Swyddog Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg) e.e. Gloywi Iaith, Treiglo, Cymraeg Elfennol
- Sesiynau unigol 1:1 gyda'r Swyddog Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg) ar gais unigolion
- Sesiynau unigol 1:1 gyda thiwtoriaid allanol ar gais unigolion
- Cyrsiau dwys (wythnos neu fwy – yn y Prifysgolion neu Nant Gwrtheyrn)
- Cyrsiau achlysurol – e.e. *Cymraeg yn y Gweithle* (dau ddiwrnod)
- Ysgolion Haf (a gynhaliwyd gan Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin)
- Cyrsiau ar-lein gan Dysgu Cymraeg e.e. Croeso Cymraeg Gwaith
- Un dosbarth mewnol: Dosbarth Lefel Meistroli (Lefel Uwch 2) – un bore'r wythnos.

Mae'r tablau isod yn dangos y cofnod o niferoedd oedd yn derbyn hyfforddiant i ddatblygu sgiliau iaith fel ag yr oedd ar y 31 Mawrth 2019.

Lefel	Nifer
MYNEDIAD	28
SYLFAEN	15
CANOLRADD	16
UWCH	10
MEISTROLI	13
GLOYWI	90
	172

Mae'r dysgwyr yn dilyn amrywiaeth eang o gyrsiau, fel a ganlyn:

Cwrs	Cyfanswm
Cyrsiau cymunedol	35
Dosbarth Meistrolï	8
1:1 mewnol (Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg)	20
1:1 allanol (Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin)	3
Cymraeg Gwaith ar-lein	15
Cymraeg yn y Gweithle	3
Ysgol Haf	2
Cwrs Calan	1
Nant Gwrtheyrn	4
Treiglo (mewnol)	34
Cymraeg Elfennol (mewnol)	12
1:1 Siwan	1
Gloywi Iaith (mewnol)	33
Cyfanswm	171

Mae'r dysgwyr hyn wedi eu rhannu ar draw adrannau'r Cyngor fel a ganlyn:

Adrannau	Cyfanswm	%
Addysg	25	15%
Amgylchedd	8	5%
Cyllid	2	1%
CG	10	6%

Economi	9	5%
Oedolion	40	23%
Plant	35	20%
Priffyrdd	5	3%
YGC	21	12%
NMWTRA	6	3%
Byw'n lach	9	5%
AELODAU	2	1%
	172	

Gwobr Goffa Dafydd Orwig 2018 – 2019

Rhoddir dwy wobwr flynyddol bellach, i gydnabod unigolion o fewn y Cyngor sydd yn dysgu'r Gymraeg, ond hefyd i unigolion neu dimau sydd yn gwneud ymdrech arbennig, neu yn mynd y tu hwnt i'w swyddi arferol i hybu'r Gymraeg ac i sicrhau bod posib i drigolion a defnyddwyr gwasanaethau'n defnyddio'r Gymraeg yn ddi-rwystr.

Enillwyd y gwobrau eleni gan Nancy Wilkinson (Swyddog Amgylchedd yn Ymgynghoriaeth Gwynedd) a Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant (am eu gwaith i sicrhau adnoddau Cymraeg ar gyfer hyfforddiant IOSH).

6. Adrodd ar ofynion iaith wrth benodi

ADRODD YN UNOL Â GOFYNIION SAFON 170 –

(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –

(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol

(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,

(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu

(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);

Bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol	500
Bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd	0
Bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol	0
Nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol	0

Mae pob swydd a hysbysebwr gan y Cyngor yn cynnwys gallu yn y Gymraeg fel sgil hanfodol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fodd bynnag mae'r Cyngor wedi sefydlu trefn newydd ar gyfer adnabod yr union ofynion ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer gwahanol swyddi, ac erbyn hyn mae pob swydd sydd yn cael ei hysbysebu gydag esboniad clir o pa lefel o sgiliau llafar, ysgrifenedig a darllen a deall sydd eu hangen.

Mae hyn yn rhan o waith ehangach y Dynodiadau Iaith.

7. Adrodd ar gwynion iaith

ADRODD YN UNOL Â GOFYNIION SAFON 170 –

(d) nifer y cwynion a dderbyniwyd

Cafwyd un ymchwiliad gan y Comisiynydd Iaith i fethiant honedig i gydymffurfio gyda'r Safonau yn ystod 2018-19.

Ymchwiliad CSG236

Ym mis Mawrth 2019 barnwyd bod y Cyngor wedi torri dau Safon ac wedi methu a delio gyda gohebiaeth a phroses apelio yn ei chyfanrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cyngor eisoes wedi cymryd camau i sicrhau na fydd y sefyllfa yn codi eto, ac mae Polisi Iaith y Cyngor yn datgan yn glir bod gan unrhyw aelod o staff hawl i gyflwyno cwynion a dilyn proses gwynion drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymholiadau Comisiynydd a chwynion mewnol:

Nifer cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol drwy broses gwynion y Cyngor:

Adran	Nifer y Cwynion	Mater yr oedd y gwyn yn ymwneud ag o
Amgylchedd	1	Dogfennau'r broses Gynllunio ddim ar gael yn Saesneg
Cefnogaeth Gorfforaethol	2	Cyfeiriad swyddogol y Cyngor ar y we Ymholiad gan swyddog o GwE wedi i neges fewnol gael ei hanfon yn uniaith Gymraeg a'r Saesneg yn yr atodiad, yn ôl yr arfer ar gyfer cyfathrebu mewnol. Cadarnhawyd bod y neges yn cydymffurfio gyda gofynion y Polisi Iaith.
Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol	1	Holiadur ar-lein ddim ar gael yn Gymraeg
Economi a Chymuned	2	Amodau Cronfa benthyciadau busnes – busnes newydd heb ddefnyddio'r Gymraeg Tafleuni Cymunedau dros Waith ddim ar gael yn Gymraeg
Cyllid	2	Peiriannau ateb: 1 neges uniaith Saesneg ar beiriant ateb y gwasanaeth sy'n delio gyda cheisiadau pas bws. 1 neges uniaith Gymraeg ar beiriant ateb y gwasanaeth treth Cyngor.
Cyfanswm	8	

Gwaith datblygol:

Mae gennym ffrwd gwaith wedi ei sefydlu o dan y teitl “Cymraeg yn y Gweithle”, sydd yn edrych yn thematig ar wahanol agweddau o gydymffurfiaeth ac yn ymchwilio i ffyrdd newydd o ddatblygu gallu’r Cyngor i gynnig dewis iaith yn rhagweithiol ac i annog mwy o’r cyhoedd i ddefnyddio ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym wedi bod yn canolbwyntio yn bennaf ar y gwaith dynodiadau iaith swyddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac wedi adnabod meysydd thematig sydd yn cynnwys defnydd iaith wrth ddatblygu gwasanaethau ar-lein a defnyddio apiau.

Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn canolbwyntio ar

- Barhau gyda’r gwaith o adnabod sgiliau iaith swyddogion drwy waith y Dynodiadau iaith.
- Deall sut mae pobl yn defnyddio ein gwasanaethau a sut y gallwn annog mwy i ddefnyddio fersiynau Cymraeg ffurflenni a gwasanaethau ar-lein.
- Datblygu cynllun hyfforddi fydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod staff yn defnyddio iaith eglur, syml a chlir wrth ysgrifennu a chyfathrebu
- Ehangu ar y rhaglen ymwybyddiaeth i ddatblygu dealltwriaeth staff o’u cyfrifoldebau wrth hyrwyddo’r Gymraeg – yn ehangach na dim ond cynnig gwasanaeth dwyieithog.
- Cyfrannu at beilota prosiect Arfer gan Brifysgol Bangor sydd yn edrych ar geisio newid arferion iaith ymysg timau gwaith lle mae arferiad o siarad Saesneg wedi ei sefydlu.

Byddwn hefyd yn:

- Datblygu trefniadau a dealltwriaeth am y modd y gall y Cyngor asesu effaith penderfyniadau ar y Gymraeg yn fwy effeithiol a sicrhau bod pob penderfyniad o blaid y Gymraeg.

Eitem 10

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	1af o Fai 2019
TEITL:	Adroddiad Canmoliaeth a Chwynion maes y Gymraeg
AWDUR:	Gwenllian Mair Williams Swyddog Datblygu Iaith
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gwynion ac engreiffiau o lwyddiant wrth hybu defnydd o'r Gymraeg yng ngwasanaethau'r Cyngor.

Llwyddiannau i hybu'r Gymraeg a sicrhau gwasanaethau Cymraeg i drigolion:

Amlygir yma llwyddiannau staff y Cyngor, y tu hwnt i waith y Swyddogion sydd yn gweithio yn benodol i hyrwyddo a chynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn y Cyngor. Tynnir sylw at enghreifftiau lle mae swyddogion y Cyngor wedi cael llwyddiant eithriadol yn datblygu sgiliau neu wedi mynd y tu hwnt i'r gofyn wrth hyrwyddo'r Gymraeg ac i sicrhau bod y trigolion yn cael gwasanaeth cyfrwng Cymraeg o safon:

Ers y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Iaith:

- Mae ymdrechion un aelod o staff Byw'n Iach i ddysgu a defnyddio mwy o'r Gymraeg yn ei gwaith wedi cael ei gydnabod gan ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Roedd yr aelod staff wedi derbyn cefnogaeth drwy'r Cynllun Cyfeillion Cymraeg newydd (sydd wedi ei sefydlu gan y Swyddogion Dysgu a Datblygu'r Gymraeg i gynnig cefnogaeth ymestynnol i ddysgwyr y tu allan i wersi ffurfiol) i fagu hyder i siarad Cymraeg gyda ei chleientiaid, ac roedd y cleientiaid wedi cydnabod a diolch iddi am ei hymdrechion.

- Yn dilyn sesiynau dysgu a chodi hyder a drefnwyd gan y Swyddogion Dysgu a Datblygu'r Gymraeg, llwyddodd aelod o staff o'r Adran Ymgynghoriaeth i ennill swydd Rheolwr Uned. Cynhaliodd ei gyfweiliad yn y Gymraeg, ac roedd hyn yn rhannol gyfrifol am ei benodiad yn ôl Pennaeth yr Adran.
- Rheolwr yn Adran Plant wedi sefydlu cyfarfodydd/sesiynau i ddysgu neu godi hyder yn defnyddio Cymraeg yn ystod amser cinio yn y gweithle. Hyn yn atgyfnerthu sesiynau gloywi iaith a gynhaliwyd gan Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg ar y safle.
- Dysgwyr Cymraeg yn Hafod Mawddach wedi sefydlu grŵp trafod ar Whatsapp i gadw mewn cyswllt, rhannu straeon a helpu'i gilydd i ddysgu Cymraeg. Roedd hyn yn dilyn trafodaethau am gynnal sesiynau dysgu yn y Cartref, ac er mwyn cadw'r momentwm tra'r oedd sesiynau'n cael eu trefnu.

CWYNION ac YMHOLIADAU GAN GOMISIYNYDD Y GYMRAEG – YN YMWNEUD Â CHYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU IAITH

Derbyniwyd dyfarniad ar un ymchwiliad gan y Comisiynydd.

Yn achos **CSG236** barnwyd bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio gyda dau Safon (Safon 1 a Safon 112) ac wedi methu a delio gyda gohebiaeth a phroses apelio yn ei chyfanrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cyngor wedi derbyn y dyfarniad ac wedi cymryd nifer o gamau gweithredu, yn unol ag argymhellion yr adroddiad dyfarnu terfynol, er mwyn sicrhau na fydd y sefyllfa hon yn codi eto.

Mae Polisi Iaith y Cyngor yn datgan yn glir bod gan unrhyw aelod o staff hawl i gyflwyno cwynion a dilyn proses gwynion drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cyngor hefyd wedi adolygu nifer o bolisiau sy'n ymwneud â hawliau gweithwyr, er mwyn sicrhau bod yr hawl iddynt ddilyn prosesau cwyno ac apelio mewnol drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei nodi yn eglur a chlir.

CWYNION ac YMHOLIADAU AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR

Adran	Nifer y Cwynion	Mater yr oedd y gwyn yn ymwneud ag o
Cyfreithiol	1	<p>Ffurflen etholiad Ewrop wedi ei dderbyn yn uniaith Saesneg.</p> <p>Anfonwyd ymddiheuriad i'r unigolyn yn egluro bod y taflenni wedi eu hanfon allan gan gwmni allanol a bod y Cyngor dan yr argraff eu bod yn darparu'r ffurflenni yn ddwyieithog. Oherwydd y cyfyngiad amser – a'r amser byr iawn rhwng cyhoeddi dyddiad yr etholiadau a'u cynnal, ni fu yn bosib unioni'r sefyllfa.</p>
Amgylchedd	1	<p>Aelod o staff wedi gwneud cyflwyniad mewn sesiwn wybodaeth yn Saesneg.</p> <p>Codwyd y mater gyda rheolwr y gwasanaeth dan sylw a chadarnhawyd mai diffyg hyder yr unigolyn oedd wedi arwain at y sefyllfa.</p> <p>Mae'r rheolwr wedi cynnal trafodaeth gyda'r tîm am ofynion y Polisi Iaith yn y cyd-destun yma, wedi rhannu linciau i dermau perthnasol o fewn y maes gwaith, ac</p>

		<p>wedi cynnig hyfforddiant i unrhyw un o fewn y tîm sydd yn dymuno magu hyder neu wella eu sgiliau. Mae'r aelod staff wedi cofrestru ar gyfer ers Gloywi laith yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ac mae'r angen i sicrhau bod aelodau eraill o'r tîm yn hyderus i allu gwneud cyflwyniadau yn y dyfodol wedi ei drafod.</p>
--	--	---